WG 35. S. 239

# HIRAETH*

## Gan y Parch. John T. Job, Carneddi.

I.

Yn Llan-llwch-haiarn hûna Hi
Yn llonydd erw'r llan ;
Lle nad oes sŵn ond sŵn y Lli'
Yn torri ar y lan.

Hêd aml i wylan wèn o'r Aig,
A briw o dan ei bron ;
A thỳr ei chalon ar y Graig
Uwch argel wely hon.

A hoff gan y fwyalchen ffraw,
A hithau'r fronfraith dlos,
Yw disgyn yn y llwyn gerllaw
I gathlu 'mrig y nos.

A'r Gog ddaw yma'n gynar iawn,
Fel o'r tu hwnt i'r llèn,
I sôn am hâf â'i deunod llawn
Ar frig y ddraenen wèn.

A llu o'i Chyfeillesau, gynt,
Ddônt yma, ar eu tro,—
I sôn am dani wrth y gwynt,
A'u gruddiau'n gwlychu'r gro.

Mor bêr yw'r Adgof iddynt hwy
Am Ferch mor bur a'r wawr ;
Am lais fu'n cânu am Farwol Glwy'
Fel angel ar y llawr.

Adgofiant am ei llygaid llon,
A'i gosgedd brydferth hi ;
A'i gwallt modrwyog fel y dòn—
Diofal fel y lli'.

Ac am y Bore,—clir ei nen—
Pan ddaeth âg ysgafn droed
I'r Capel at yr Allor Wen
Yn un-ar-hugain oed.

Ond O! fel breuddwyd,—cilio wnaeth !
Fel Eden, aèth ar ffô :
Ac eto, tua'r "*pyrth*" yn gaeth
Câr Hiraeth roddi tro.

II.

O! tyr'd yn ol, fy Etta fwyn,—
Mae'th gariad dan ei glais ;
Wyf wrth dy feddrod, clyw fy nghwyn—
Ai nid adwaeni'm llais?

Adwaenit ti fy llais yn dda
Pan gynt y crwydrem ni
Hyd draeth Ceinewydd, hirddydd ha',
A'n serch fel llanw'r Lli'.

A phan y dringem Ben-y-graig,
Ac eistedd yn y grûg,—
I wrandaw oratorio'r Aig
A'r haul yn euro 'i hûg.

Gwan-sisial Serch mal miwsig mawr
Bryd hwnnw iti gaed :
Ai byddar wyt i serch yn awr
Yn gwaeddi yn ei waed?

O! dywed air, neu hanner sill,—
B'ai hynny imi'n hedd :
Pe clyw'n dy lais yn cyffro'r gwyll,
Mi folwn ar dy fedd.

'Rwy'n credu yr adwaenwn ef—
Dy fwynlais dwsmel di—
Y'mhlith myrddiynau nablau'r Nef
Yn cânu am Galfari.

Halogaist di mo'th lais erioed
A llwgr ganiadau'r llawr :
Ti ge'st "y dinc" ym more d'oed,
Sef tinc yr Anthem Fawr.

---

*O'r "Traethodydd" am Ionawr gyda chaniatad caredig yr awdwr. —Gol.

10430

X 205 31 01 84

A wyt ti'n cofio'r oriau llon
Ill dau dreuliasom ni,
I beraidd gânu yn Y Fron
Am Angeu Calfari?

'Roedd swyn dy lais yn dawel hedd
Ac ysbrydoliaeth im':
Wyf heddyw'n wylo wrth dy fedd—
Ac ni ddywedi ddim!

Ac eto,—beth yw'r penill llon
Sydd ar dy faen yn dyst?
Mae swn y brofedigaeth hon
Yn fiwsig ar fy nghlust:—

"YR ANGEL HWNNW GLOAI'R DDOR,
RYW DDYDD, O WYNFA DDAW,—
I'W DEFFRO HI AR ARCHIAD IOR
A'R ALLWEDD YN EI LAW."

III.

Bûm, ddöe, wrth fedd ein *Dedwydd Dri*
Ar lan Amanw draw,
Yn tywallt dagrau serch yn lli',
A thusw yn fy llaw.

Ac ar y maen, eu *Henwau* llon
A wênai arna' i'n iach,—
Sef "OLWEN DIL," a'r brydferth "NON,"
A'n brawd "ANEURIN BACH."

A galw! galw! 'n drist fy nghri
Wnawn uwch y gynnar gŵys,—
I wel'd atebai un o'r tri
Eu Tad—o'r ddaear ddwys.

Ond nis adwaenent *lais eu Tad*
Yn galw'n awr, fel cynt;
'Doedd yno ond Taw yn gwylio'u stâd,
Ac alaw leddf y gwynt.

A phwysais ar y Garreg Wen
Mewn myfyr dan fy mhwn;
Ac aeth fy mryd tuhwnt i'r Llen—
Pa sut y bu,—nis gwn.

A mi yn troi, gan ddweyd: "*Ta-ta! F'anwyliaid bach dinam*";
Clyw'n lais yn dweyd:—"*Pob peth yn dda,*—
*Maent* 'GYDA DUW A'U MHAM.'"

O Etta fwyn! yng Ngwlad y Gân
'Rwyt gyda'th Ddedwydd Dri:
'Does ond eich beddau ar wahân:
Mae'r teulu'n gyfan Fry.

Yr Iesu aeth â'r *tri* i'r Ne'
Yn dyner iawn drwy'r glyn;
A'th alw dithau wnaeth Efe
I'w mâgu ar Seion Fryn.

A mwy, nis cwynaf ar fy rhan,
Er llid trallodau'r llawr:
Cawn eto gwrddyd yn y man
"Ar Fore Glas y Wawr."

'Rwy'n teimlo, bellach, wrth dy fedd,
Fy mron yn ysgafnhâu;
Ac yn ymagor Ddrws yr Hedd,
Nas dichon Bedd mo'i gâu.

Mae'th *ysbryd*, weithiau, gyda mi
Yn *canu*, Etta dlos;
A mwyn i mi yw'th swyn a'th sï
Trwy dywyll-lenni'r nos.

Rho serch fy nghalon waedlyd hon
I "OL," a "NONNO fach,"
Ac i "ANEURIN,"—engyl llon;—
YN IACH!—YN IACH!—YN IACH!